## Iesu

I
Nid oedd yn ddoeth marw
Cyn i'r haul fachlud mewn gwaed ar fryn
Ac yna frwydro drwy
Slymiau meddwl y cyffredin mud
A'u puro,
Gwastraffu corff oedd marw.
Bydded diolch.

Nid moesol ydoedd caru
Cyn i'r Haul gynnig ei ardd o gnawd
Ac yna grwydro nes
Dyfod gardd arall ym meddwl Duw
Lle nad oes goed i groesawu,
Gwastraffu corff oedd caru.
Haleliwia

II
Mae syched arnaf am dy waed, O! Dduw,
Am drochi 'nwylo ynot, cnoi dy gnawd,
A phigo'r esgyrn yn lân, am fod lliw
Grawnwin gwanwyn arnat a golau blawd.

Cysur dan faich yr haul yw'r gwaed O! Dduw.
Os bydd milltir yn brudd, os trwm y llais,
Agoraf y botel a melys yw
'Rogli'r ager a gyfyd dros dy waed.
Ond. Er poen – aeddfedu'r hydref, er wedd,
Er golud y grawnwin, er braster oen
Yn barod i'th aberth, anesmwyth yw'r wledd,
'Rwy'n ofni'r gaeaf wedi'r canu a'r haen:
Ofnaf i mi aml-eistedd wrth dy fwrdd,
Flasu'r cnawd, a thaflu'r esgyrn i ffwrdd.

***Bobi Jones***

## Dehongliad y Bardd o'i Gerdd

### Iesu

Mae hon fel 'Dyma'r Byd' yn gerdd gynnar iawn, a hefyd yn gerdd gyntefig. O ran naws mae'r elfen gorfforol ynddi eto yn bur amlwg. Dechreuodd y gerdd yn y pennill cyntaf yn Rhan II; ac wedi cael hyd i honno, tyfodd y gweddill i gyd o'i chwmpas.

Un o'r nodweddion rhyfedd am Gristnogaeth fel crefydd yw mor gorfforol-ysbrydol yw – Duw sy'n creu sylweddau, ymgnawdiad ym Methlehem, Lladd Corff Crist ar Galfaria, Atgyfodiad

Corfforol - gochel y Cristion wedi adnabod y Duw-ddyn drwy'r Ysbryd Glân yn gweithredu'n weledig yn ogystal ag yn anweledig.

Yr oedd Pantycelyn wedi rhyfeddu at agosrwydd y dimensiwn anweledig. Mae'n dathlu'r peth yn ei gyfrol wych *Ffarwel Weledig, Croeso Anweledig Bethau*. Ac wrth gwrs, mae yn llygad ei le. Ond bydd y Cristion yn dathlu Iesu Gweledig hefyd a'r ffaith fod ffydd a phrofiad yn gorfod troi'n weithredodd ffrwythlon – nid i ennill dim – ond o ogoniant i Dduw. Gresynu y mae diwedd y gerdd, mor gyffredin y gall Cristion fwynhau profiad, sef ymhyfrydu yn y gwirioneddau a'r adnabyddiaeth o'r Gwaredwr, ac yna beidio â'i droi'n wasanaeth ymarferol er clod i'w Arglwydd. Yr oedd Pantycelyn yn ei waith cyflawn yn mawrygu cydbwysedd gwirionedd, yn weledig ac yn anweledig.

***Bobi Jones***